# PWYLLGOR CYNLLUNIO
# 2 CHWEFROR 2022

Cofnodion cyfarfod o bell Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mercher, 2 Chwefror 2022

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Bithell, Derek Butler, Chris Dolphin, Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mynychodd y Cynghorydd Andy Hughes ar ran yr aelod lleol ar gyfer eitem 6.1 ar y Rhaglen (063337)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Bernie Attridge a Ted Palmer

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu, Rheolwr Gwasanaethau - Cynllunio, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 50. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Derek Butler gysylltiad personol mewn perthynas ag eitem 6.1 ar y rhaglen (063337) gan ei fod yn aelod o Fwrdd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd ond nid oedd yn aelod o'r Cydbwyllgor a oedd wedi cyflwyno sylwadau ar y cais. Ar y sail honno, byddai'n cymryd rhan yn y drafodaeth ac yn pleidleisio.

## 51. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4995&LLL=0

## 52. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2022 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Richard Lloyd ac Ian Dunbar eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

**53.** **<u>EITEMAU I'W GOHIRIO</u>**

Ni argymhellwyd gohirio dim un o'r eitemau.

**54.** **<u>ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)</u>**

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi ei chynnwys fel atodiad.

**55.** **<u>AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL</u>**

Ar ddechrau'r cyfarfod, roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol a neb o'r wasg.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a gorffennodd am 2.20pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau ar https://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

## PWYLLGOR CYNLLUNIO – 2 CHWEFROR 2022

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 063337 | Cyngor Cymuned Treuddyn | Codi llety cŵn moethus bach (12 uned i gyd) yn Brookside, Mynydd Du, Nercwys, yr Wyddgrug | Siaradodd Saskia Webster, preswylydd lleol, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Robin Sadler, yr Asiant, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Andy Hughes, aelod ward cyfagos, ar ran y Cynghorydd Carolyn Thomas yn erbyn y cais. | Cyflwyno caniatâd cynllunio, yn unol ag argymhelliad y swyddog, yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad gydag amod ychwanegol i gyflwyno a chytuno ar Fesurau Osgoi Rhesymol priodol i ddiogelu amffibiaid yn ystod unrhyw ddatblygiad ar y safle a nodyn yn adlewyrchu cyngor CNC mewn perthynas â’r angen am drwyddedau dan Reoliad 55 yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y diwygiwyd) pe bai Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop yn cael ei ganfod yn ystod y gwaith. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| - | - | Adran 42 Ymgynghoriad Deddf Cynllunio 2008 - Prosiect Piblinell a Storio Carbon HyNet North West | - | Dirprwyo'r ymateb terfynol i Ymgynghoriad Adran 42 ar HyNet (Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol) i swyddogion gan ymgynghori ag aelodau lleol allweddol a effeithir gan lwybr y biblinell carbon deuocsid newydd arfaethedig a'r biblinell presennol, sy'n gorffen yn nherfynell nwy Y Parlwr Du.<br><br>Yn dilyn cyflwyno'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu, a ddisgwylir yn ystod haf 2022, bydd yn rhaid ymgynghori â'r Cyngor eto a bydd gofyn iddynt gynhyrchu Adroddiad ar yr Effaith Leol.  Bydd y Pwyllgor Cynllunio'n cael eu hysbysu ar y cam hwn mewn perthynas â'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ac yn cael cyfle i gynnig sylwadau ar y cynnig a chynnwys yr Adroddiad ar yr Effaith Leol gan y Cyngor mewn perthynas â'r cyflwyniad. |